SHERMAN
THEATR • THEATRE

AEM INTERNATIONAL



# CYFARWYDDWR ARTISTIG

*Pecyn Cais*

**Diolch i chi am eich diddordeb yn rôl Cyfarwyddwr Artistig Theatr y Sherman.**

Rwyf wedi cael y fraint o wasanaethu ar Fwrdd Theatr y Sherman ers 2018 ac fel Cadeirydd ers 2022. Yn ystod y cyfnod hwn rwyf wedi gwylio'r sefydliad yn tyfu ac yn ffynnu, gan ddod yn un o theatrau cynhyrchu pwysicaf y DU gyda ffocws clir ar ei rôl fel adnodd dinesig yn ninas Caerdydd.

Rwy'n edrych ymlaen at y bennod nesaf yn hanes y Sherman wrth i ni ddechrau ar y broses o benodi olynydd i Joe Murphy, sy'n ein gadael i ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Artistig gyda'r Birmingham Rep.

Mae tîm y Sherman yn dîm bach, uchelgeisiol ac ymroddedig sydd wedi cael llwyddiannau mawr ar ein llwyfannau ac oddi arnynt. Bydd ein Cyfarwyddwr Artistig newydd yn cael y cyfle gwych i weithio gyda'r tîm profiadol hwn sy'n arwain y sector er mwyn dyrchafu'r Sherman i'r lefel nesaf o ragoriaeth artistig, gan ddyfnhau'r ymgysylltiad â chynulleidfaoedd a chymunedau hen a newydd.

Edrychwn ymlaen at glywed oddi wrthych.

**Ceri Davies**
*Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr*

**Mae Theatr y Sherman yn lle arbennig iawn, sy'n creu gwaith o safon eithriadol i'n cymunedau a'n cynulleidfaoedd bywiog ar hyd a lled Caerdydd, de Cymru a thu hwnt weithiau, gan ddarparu croeso cynnes i bawb.**

Rwy'n edrych ymlaen at chwilio am bartner newydd i weithio ochr yn ochr â mi i arwain y tîm ysbrydoledig, gwych o bobl sy'n ymroddedig i gyflawni gweledigaeth uchelgeisiol y Sherman. Mae hwn yn gyfnod gwych i ymuno â'r Sherman wrth i ni adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf a datblygu strategaeth newydd i ddyrchafu gwaith y sefydliad ymhellach, dyfnhau ein hymgysylltiad â chynulleidfaoedd, ehangu ein cyrhaeddiad a datblygu artistiaid ar gyfer y dyfodol.

Mae'n gyfnod ansicr i'r sector, ac eto rydym yn gweld y ffigurau cynulleidfaoedd uchaf erioed ac ymatebion rhyfeddol i'n cynyrchiadau, gan ddangos awch am waith newydd, sy'n apelio at bawb.

Nid fu ein rôl o fewn ein cymunedau erioed cyn bwysiced a thrwy ein hymrwymiad i'n statws fel Theatr Noddfa, fel un o sylfaenwyr y bartneriaeth Craidd, a thrwy nifer o fentrau eraill, rydym i gyd yn cael ein hysgogi i sicrhau bod cynhwysiant yn ganolog i Theatr y Sherman.

Rwy'n edrych ymlaen yn fawr i gwrdd â'r Cyfarwyddwr Artistig newydd, y gallaf weithio gyda nhw i fynd â Theatr y Sherman ymlaen i bennod nesaf ei hanes, ac i sicrhau ein bod yn parhau i gyflwyno gwaith rhagorol ar gyfer y sefydliad celfyddydol hanfodol yma yng Nghymru.

Diolch yn fawr

**Julia Barry**
*Prif Weithredwr*

# CYFLWYNIAD

Dychmygwch sefyllfa ble y gallai pŵer y theatr greu byd tecach, mwy tosturiol a mwy unedig Rydym yn ymdrechu i gyflawni'r weledigaeth hon yn feunyddiol. Rydym yn gwneud hyn drwy greu a churadu profiadau o theatr fyw a rennir sy'n ysbrydoli pobl o bob cefndir ar draws De Cymru a thu hwnt, i greu byd gwell. Ein cred ni yw bod gan bawb yr hawl i gael mynediad at greadigrwydd a hunanfynegiant, ac ymdrechwn bob dydd i sicrhau bod gan bawb y cyfle i gael eu cyfoethogi gan y celfyddydau a'r theatr.

Ers dros 50 mlynedd mae Theatr y Sherman wedi bod yn gyfrifol am greu rhai o weithiau theatrig mwyaf mentrus a chlodwiw Cymru. Nod y theatr yw creu a chyflwyno gwaith, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n difyrru, yn bryfoclyd, yn amrywiol, ac yn bleserus a difyr i gynulleidfaoedd o bob œd.

SHERMANTHEATRE.CO.UK

**“Conceptually brilliant, with complex characters and a fearless cast, Azuka Oforka’s debut play is a remarkable examination of women under colonialism with contemporary resonance”**

★★★★★

The Guardian am
*The Women of Llanrumney*





**“Emotional, visceral Welsh language adaptation of modern classic.”**

★★★★

The Stage am *Iphigenia yn Sblot*

**Gan ganolbwyntio ar ddatblygu a chynhyrchu gwaith newydd ac ar feithrin artistiaid Cymreig ac artistiaid sy'n byw yng Nghymru, Theatr y Sherman yw craidd y theatr yng Nghymru. Mae'r cwmni'n adrodd straeon Cymreig sy'n taro tant yn fyd-eang drwy ei gynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman, sydd oll wedi'u creu yn adeilad y Sherman yng nghanol Caerdydd. Mae'r theatr yn lle i bawb, gan greu cyfleoedd i ddinasyddion De Cymru gysylltu â'r theatr drwy ymgysylltu ysbrydoledig yn seiliedig ar weledigaeth.**

Bob blwyddyn mae'r cwmni'n cynhyrchu rhwng 5 ac 8 o gynyrchiadau/cydgynyrchiadau proffesiynol Crëwyd yn y Sherman, yn y Gymraeg, y Saesneg, ac yn ddwyieithog, ochr yn ochr â 3 chynhyrchiad ar gyfer y rhaglenni cyfranogiad (Theatr Ieuenctid y Sherman a Sherman Players).

Ers 2015 mae'r theatr wedi comisiynu a chynhyrchu gwaith gan dros 30 o awduron Cymreig a'r rhai sy'n byw yng Nghymru, ac wedi cyd-gynhyrchu gwaith gyda: National Theatre; The Royal Court; Cwmni Frân Wen; Theatr Cymru; Theatr Clwyd; Royal Exchange, Manceinion; Tron Theatre, Glasgow; Tobacco Factory Theatres, Bryste; Prime Cut; Paines Plough; Oran Mor; Theatr Hijinx; Theatr Iolo; a Neon Candle a Ceriann Williams.

Mae'r cwmni'n mynd â'i waith ar daith, pan fo'n berthnasol, ledled Cymru a'r DU, ac yn fwy diweddar, yn rhyngwladol. Mae'n gartref i ddau awditoriwm – y Prif Theatr gyda 452 o seddi a'r Stiwdio sydd â lle i 100 yn gyffredinol.

Drwy ein rhaglenni dysgu, allgymorth a chyfranogi sy'n arwain y sector, rydym wedi ymrwymo i chwarae ein rhan i sicrhau bod De Cymru yn lle bywiog a chreadigol i fyw, i weithio, i fynd i'r ysgol, ac i dyfu i fyny ynddo.

## GWOBRAU AC ENWEBIADAU AR GYFER EIN GWAITH:

- Enillydd y wobr Theatr Ranbarthol y Flwyddyn – Gwobrau The Stage 2018 ac ar restr fer Theatr y Flwyddyn yng Ngwobrau The Stage yn 2024 a 2025.
- Ar y rhestr fer yn y categori Theatr yng Ngwobrau Sky Arts 2024.
- Gwobr Awdur Gorau i Azuka Oforka am ***The Women of Llanrumney*** yng Ngwobrau Debut The Stage 2024.
- Gwobr Actor Gorau i Elan Davies am ***Imrie*** yng Ngwobrau Debut The Stage 2023.
- Gwobr Olivier am y Theatr Gysylltiedig Orau (2018) am ***Killology*** gan Gary Owen mewn cydgynhyrchiad gyda The Royal Court.
- Drama Newydd Orau – Gwobrau UK Theatr 2015 – ***Iphigenia in Splott*** gan Gary Owen.
- Gwobr James Tait Black – ***Iphigenia in Splott*** gan Gary Owen.

# GWELEDIGAETH, CENHADAETH, AC AMCANION ELUSENNOL

## EIN GWELEDIGAETH

Byd y mae'r theatr yn ei wneud yn decach, yn fwy tosturiol, yn fwy unedig.

## EIN CENHADAETH

Creu, curadu a rhannu profiadau theatr fyw a fydd yn ysbrydoli pobl o bob cefndir yn Ne Cymru a thu hwnt i greu byd gwell. Ein cred ni yw bod gan bawb yr hawl i gael mynediad at greadigrwydd a hunanfynegiant, ac ymdrechwn bob dydd i sicrhau bod gan bawb y cyfle i gael eu cyfoethogi gan y celfyddydau a'r theatr.

## AMCANION ELUSENNOL

Hyrwyddo ac annog y celfyddydau ac yn arbennig celfyddydau perfformio er budd y cyhoedd drwy ddatblygu, cynhyrchu a chyflwyno gwaith a theatr newydd, darparu cyfleusterau theatr a hyrwyddo addysg plant, pobl ifanc ac oedolion drwy brofiad o'r theatr, drama a'r celfyddydau perfformio.

## EIN GWERTHOEDD

**SBARDUNO:** Mae ein gwaith yn alwad i weithredu i greu byd gwell.

**ARDDERCHOG:** Rydym yn ymrwymedig i gyflawni ardderchowgrwydd ym mhob agwedd ar ein gwaith.

**DYRCHAFOL:** Dylai ein cynyrchiadau fod yn ffynhonnell o obaith a goleuni.

**AGORED:** Rydyn ni wastad ar agor – wastad yma.

**GWYDNWCH:** Rydym yn dîm bach ond cry'. Mae ein graddfa yn ein galluogi i fod yn wirioneddol hyblyg, ystwyth ac ymatebol.

**SHERMANTHEATRE.CO.UK/AMDANOM-NI/**

# RHAGLEN ARTISTIG

## Mae Theatr y Sherman wedi ymrwymo i gomisiynu a chynhyrchu gwaith awduron Cymreig a'r rhai sy'n byw yng Nghymru yn bennaf i greu cynyrchiadau rhagorol, arloesol ac ysgogol sy'n taro tant gyda chymunedau De Cymru ac yn eu hadlewyrchu.

Mae gan Theatr y Sherman le pwysig yn y sector theatr yng Nghymru o ran meithrin cenhedlaeth newydd amrywiol o artistiaid, technegwyr ac arweinwyr theatr, a chreu amrywiaeth o lwybrau amgen i'r celfyddydau. Yn ogystal â hynny, fel sefydliad diwylliannol blaenllaw, mae'r Sherman yn arweinydd yn sector ehangach y celfyddydau yng Nghymru.

Drwy gydol 2024 parhaodd y theatr i wneud a churadu theatr ysbrydoledig a oedd yn taro tant gyda niferoedd cynyddol o gynulleidfaoedd ac a gafodd ganmoliaeth fawr. Gwerthwyd dros 54,000 o docynnau, cynnydd o 9% ers 2023.

Roedd cynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman, a grëwyd yn y theatr yng nghanol Caerdydd, yn adrodd straeon am dde Cymru a oedd ag arwyddocâd byd-eang.

SHERMANTHEATRE.CO.UK/AMDANOM-NI/






# YN 2024

Cafwyd 5 premiere byd o ddramâu gan awduron Cymreig a'r rhai sy'n byw yng Nghymru

Cafwyd 181 o berfformiadau o gynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman

Ar draws cynyrchiadau Crëwyd yn y Sherman a rhaglen cwmnïau gwadd wedi'u curadu, llwyfannwyd 307 o berfformiadau yn y Sherman

Crëwyd 7 cynhyrchiad Crëwyd yn y Sherman, i gyd o fewn yr adeilad





## Trefnwyd 2 daith ledled Cymru yn 2024: IPHIGENIA YN SBLOT a LITTLE RED RIDING HOOD / YR HUGAN FACH GOCH





Ers tro byd, mae Theatr y Sherman wedi bod yn ymroddedig i hyrwyddo'r Gymraeg drwy wneud gwaith yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog, gan annog aelodau o staff i ddefnyddio a dysgu'r iaith, ac annog cyfranogwyr i ddefnyddio'r iaith mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw.

Ar ein llwyfannau, rydym yn ymrwymedig i greu gwaith sy'n cynrychioli defnydd arloesol a chyfoes o'r Gymraeg, drwy gynyrchiadau a chydgynyrchiadau diweddar.

Rydym yn meithrin diwylliant lle mae pawb yn cael eu hannog i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg, beth bynnag yw eu lefel.

# ADRAN LENYDDOL THEATR SHERMAN

Yn sgil lansio Adran Lenyddol y Sherman yn 2021, sefydlwyd dull strategol, hirdymor o ddatblygu awduron. Gan gynnig rhaglen waith gydlynol sy'n darparu llwybr clir o ddilyniant y gall unigolion ymuno ag ef ar wahanol gamau yn eu gyrfa fel awduron, mae gwaith yr Adran Lenyddol wedi sefydlu ei hun yn gyflym fel swyddogaeth hanfodol sydd wrth galon proses artistig Theatr y Sherman.

Y nod yn yr hirdymor yw sefydlu Adran Lenyddol barhaol i greu gwaith newydd dwyieithog o safon fyd-eang yn Theatr y Sherman. Bydd hyn yn sicrhau bod Theatr y Sherman yn parhau i helpu i adeiladu sector theatr deinamig a gwydn yng Nghymru fel sylfaen ar gyfer y theatr yng Nghymru wedi'i hysgogi gan greadigrwydd ei chymunedau.

Yn 2024, parhaodd Theatr y Sherman i fod wrth galon y theatr yn y de-ddwyrain: gan ddatblygu a meithrin awduron sy'n byw neu sy'n dod o Gymru ar bob cam o'u gyrfaoedd; cefnogi gwneuthurwyr theatr a chwmnïau newydd a gwasanaethu fel gofod creadigol cynhwysol ar gyfer y sector cyfan.

SHERMANTHEATRE.CO.UK/CREWYR-THEATR/



# CRAIDD

Prosiect cydweithredol rhwng 5 sefydliad Cymreig yw **Craidd** a'i nod yw ysgogi newid ystyrlon a chynaliadwy, gan wella cynrychiolaeth a chyfleoedd ar gyfer pobl Fyddar ac anabl (gan gynnwys pobl niwro-amrywiol a phobl ag anableddau dysgu) ar draws sector theatr prif ffrwd Cymru. Y nod yw sicrhau bod mynediad a chynhwysiant wrth wraidd theatr yng Nghymru.

Y sefydliadau sy'n rhan ohono yw: Theatr y Sherman, Theatr Clwyd, Pontio, Theatr y Torch, a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Bydd Craidd yn llwyfannu ei gynhyrchiad cyntaf yng ngwanwyn 2026, dan arweiniad Theatr Clwyd. Theatr y Sherman fydd yn gyfrifol am gynhyrchiad Craidd yn 2027 a bydd yn cael ei gyfarwyddo gan Gyfarwyddwr Artistig Theatr y Sherman.



# YMGYSYLLTIAD CREADIGOL IEUENCTID AC ADDYSG

Mae rhaglenni Theatr Ieuenctid ac Ymgysylltu Creadigol Theatr y Sherman yn parhau i helpu i greu dinasyddion ifanc ymroddedig sydd wedi'u hysgogi i gael effaith gadarnhaol ar y byd.

Drwy'r rhaglenni Ymgysylltu Creadigol fe wnaeth y Sherman weithio neu ryngweithio â 1508 o blant a phobl ifanc o bob cwr o dde Cymru yn 2024.

Nid lle i bobl ifanc i ddatblygu eu sgiliau actio yn unig yw Theatr Ieuenctid y Sherman, ond lle i ddysgu am bob elfen o greu theatr, o ddylunio i grefft llwyfan a marchnata, yn ogystal â datblygu hyder, sgiliau cyfathrebu a phwysigrwydd gweithio fel rhan o dîm.

Mae Sherman Players, cwmni amatur i unrhyw un sy'n 18+ oed, hefyd yn cynnig cyfle i bobl ddatblygu eu sgiliau creadigol. Cynigir cyfleoedd cyson i aelodau Sherman Players ddysgu am grefft creu theatr drwy berfformio yn rhaglen waith broffesiynol y Sherman.

**Yn 2024, gweithiodd tîm Ymgysylltu Creadigol y Sherman â thros 348 o bobl drwy brosiectau a digwyddiadau cymunedol.**

Mae yna hefyd gyfleoedd rheolaidd i Brentis Actorion ar gyfer y rhai sy'n ystyried dilyn gyrfa yn y byd perfformio ond nad ydynt wedi ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant ffurfiol eto.

Mae Theatr y Sherman yn parhau i weithio i helpu i ddod â Chaerdydd at ei gilydd ymhellach drwy waith ymgysylltu cymunedol drwy gydol y flwyddyn. Drwy amrywiaeth o fentrau parhaus a chroeso cynnes unigryw, mae'r Sherman yn parhau i fod yn adnodd dinesig hanfodol ac yn lle i bawb.

Ym mis Tachwedd, fel Theatr Noddfa, cynhaliodd y Sherman ŵyl Noddfa hynod lwyddiannus gan gynyddu cyrhaeddiad a chyfranogiad.

Mae'r theatr yn cynnal nifer o fentrau i gefnogi'r gymuned. O ddydd i ddydd, mae'n cynnig lle cynnes ac mae hefyd yn derbyn cyfraniadau ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd. Bob dydd Gwener mae'n lleoliad ar gyfer y Chatty Café, a sefydlwyd i fynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol. Ddydd Sadwrn cyntaf pob mis mae'n gartref i gangen leol Caffi Trwsio Cymru.

**SHERMANTHEATRE.CO.UK/CYMRYD-RHAN/**

# EFFAITH THEATR Y SHERMAN

Drwy gydol 2024, parhaodd niferoedd y cynulleidfaoedd i gynyddu a gwerthwyd y nifer fwyaf erioed o docynnau yn oes fodern Theatr y Sherman. Yn benodol, gwelwyd twf pellach yn y cynulleidfaoedd ar gyfer cynyrchiadau CRËWYD YN Y SHERMAN ar gyfer gwaith Cymreig newydd.

## Gwerthwyd dros 54,000 o docynnau yn 2024

Torrwyd record gyda nifer y perfformiadau o ODYSSEY '84 a A CHRISTMAS CAROL

A CHRISTMAS CAROL – sioe a wnaeth y mwyaf o elw ac a ddenodd y gynulleidfa fwyaf yn hanes diweddar y Sherman

ODYSSEY '84 – y cynhyrchiad CRËWYD YN Y SHERMAN a lwyfannwyd yn y Brif Theatr a gynhyrchodd yr elw mwyaf a'r gynulleidfa fwyaf o blith cynyrchiadau tymor yr hydref









**Cafodd dros 14,500 o blant brofiad theatrig o'r radd flaenaf yn y Sherman yn ystod Nadolig 2024.**

**Gwerthwyd pob tocyn i 2 gynhyrchiad o ddramâu newydd Crëwyd yn y Sherman gan awduron o Gymru a lwyfannwyd yn ein Stiwdio, sef THE WIFE OF CYNCOED a THE WOMEN OF LLANRUMNEY.**

Yn 2024 parhaodd y Sherman i sicrhau bod theatr o safon eithriadol o fewn cyrraedd pawb drwy bolisi prisio hygyrch a thocynnau Talwch Beth Fynnwch.

**Manteisiodd 1,602 o bobl ar y cynllun Talwch Beth Fynnwch.**

Mae'r theatr yn gweithio'n galed i sicrhau bod pobl yn cael mynediad ehangach i'r celfyddydau ochr yn ochr ag ystod ehangach o gyfleoedd i ymgysylltu

Mae creu pwyntiau mynediad hygyrch i'r gwaith, datblygu sbectrwm ehangach o gyfleoedd ymgysylltu, ochr yn ochr â gweithgareddau pwrpasol sy'n canolbwyntio ar ddyfnder yr ymgysylltu, defnyddio'r hyn a ddysgwyd o ymgynghori â chynulleidfaoedd a chyfranogwyr wedi arwain at gynnydd yn nifer ac amrywiaeth yr aelodau sy'n cymryd rhan mewn ystod gynyddol eang o gyfleoedd.

# EIN CWMNI

Ar hyn o bryd mae gan y cwmni 22 aelod o staff craidd (21.5 Cyfwerth ag Amser Llawn). Mae dwy swydd ychwanegol a gefnogir gan gyllid cyfyngedig (1.5 Cyfwerth ag Amser Llawn) sy'n cynnwys y Rheolwr Llenyddol a'r Cydymaith Llenyddol. Cefnogir y tîm gan hyd at 25 o aelodau o staff achlysurol sy'n gweithio yn y Swyddfa Docynnau a'r adrannau Blaen y Tŷ a Chynhyrchu.

Rydym yn cyflogi dros 250 o weithwyr llawrydd bob blwyddyn ac mae gennym dîm ymroddedig o 75 o wirfoddolwyr sy'n cefnogi'r mudiad fel tywyswyr blaen y tŷ yn ogystal ag ar draws meysydd eraill o'n gweithgaredd.

Mae gennym Fwrdd Ymddiriedolwyr ymroddedig sy'n darparu ystod amrywiol o sgiliau a safbwyntiau i sicrhau proses lywodraethu drwyadl a sefydliad sy'n ariannol iach.

# EIN BUSNES

Mae gan Theatr y Sherman drosiant blynyddol o oddeutu £2.5 miliwn sy'n cynnwys arian cyhoeddus ac incwm a enillir.

Fel un o gleientiaid allweddol Cyngor y Celfyddydau, rydyn ni'n cael £1.1 miliwn y flwyddyn ganddo, sef tua 45% o'n trosiant. Mae incwm y swyddfa docynnau tua 21% o'n trosiant, gyda 9% ohono drwy weithgareddau masnachu, 8% drwy weithgareddau codi arian, a 17% arall drwy amrywiaeth o ffrydiau incwm eraill.



# SWYDD-DDISGRIFIAD: CYFARWYDDWR ARTISTIG

## PRIF DDIBEN Y SWYDD

Mae'r Cyfarwyddwr Artistig yn gyfrifol am ddatblygu a gwireddu'r weledigaeth artistig ar gyfer Theatr y Sherman a, chan weithio gyda'r Prif Weithredwr, am sicrhau bod y theatr yn cyflawni ei nodau strategol ac artistig ac yn parhau i fod yn sefydlog yn ariannol ac yn ymatebol i'w chynulleidfaoedd. Mae'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Prif Weithredwr yn adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd ac yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni cenhadaeth y cwmni.

## YN ATEBOL I

Cadeirydd y Bwrdd.

## YN GYFRIFOL AM

Pennaeth Cynhyrchu a Chynllunio, Rheolwr Ymgysylltu Creadigol, Rheolwr Llenyddol, timau creadigol llawrydd ac artistiaid.

## CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL

Prif Weithredwr, Pennaeth Marchnata a Chyfathrebu, Pennaeth Cyllid a Gweinyddiaeth, Pennaeth Codi Arian, Rheolwr Rhaglennu a Chynllunio.

## CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

**Arweinyddiaeth Artistig**

- Pennu gweledigaeth artistig a safonau rhagoriaeth y theatr, a gweithio ar y cyd â'r Prif Weithredwr i guradu a chyflwyno rhaglen artistig sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd, ac yn ennyn hyder a brwdfrydedd ymhlith staff, artistiaid, ein cynulleidfaoedd targed, y sector ehangach, a chyllidwyr fel ei gilydd.
- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Tîm Uwch-reolwyr i sicrhau bod y weledigaeth hon yn bwrw gwreiddiau ar draws pob agwedd ar y sefydliad.
- Curadu rhaglen hygyrch, berthnasol ac uchelgeisiol ar gyfer Theatr y Sherman sy'n cryfhau hunaniaeth artistig ac enw da y theatr gyda chynulleidfaoedd presennol a chynulleidfaoedd newydd yng Nghaerdydd, de Cymru, ar draws y DU ac yn rhyngwladol.
- Arwain y gwaith o wireddu holl gynyrchiadau a chydgynyrchiadau'r cwmni i'r safonau uchaf posibl, gan gyfarwyddo a/neu greu nifer penodol o gynyrchiadau a chydgynyrchiadau a chynnull a chefnogi timau creadigol.
- Cefnogi, datblygu a chomisiynu awduron Cymreig a'r rhai sy'n byw yng Nghymru sy'n awduron newydd, yn awduron sy'n dod i'r amlwg ac yn awduron sefydledig i adrodd amrywiaeth eang o straeon sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes. Eu meithrin fel y gallant wneud y gorau o'u potensial creadigol, a sicrhau mewnbwn dramayddol o safon uchel i ddramâu newydd a gomisiynir ac a gynhyrchir gan Theatr y Sherman.
- Dyrchafu a datblygu theatr Gymraeg drwy raglenni artistig a gwaith wedi ei gynhyrchu.
- Hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws y sefydliad, i gynnwys timau creadigol a chastio, yn ogystal â mentrau datblygu cynulleidfaoedd.
- Ar y cyd â'r Prif Weithredwr, mynd ati'n rhagweithiol i chwilio am gyfleoedd

cydweithio creadigol a chyd-gynhyrchu, a hwyhau bywyd cynyrchiadau Theatr y Sherman gan ddefnyddio cysylltiadau artistig presennol a newydd ag artistiaid, gwneuthurwyr theatr, awduron, cwmnïau, a chynhyrchwyr.

- Datblygu a chreu mentrau datblygu artistiaid, gan gynnwys y Rhaglen Lenyddol, Cyflwyniad i Ysgrifennu Dramâu, a'r fenter Cwmni Preswyl, i sicrhau bod Theatr y Sherman yn parhau i fod yn ddarparwr cyfleoedd perthnasol a rhagorol o bwys i wneuthurwyr theatr newydd, gyda ffocws penodol ar ddatblygu talent yng Nghymru.
- Goruchwylio a chefnogi gwaith y tîm Ymgysylltu Creadigol gan sicrhau bod gwaith y Sherman ar gyfer pobl ifanc a chymunedau wedi'i wreiddio'n gadarn yng ngweledigaeth artistig y sefydliad
- Monitro, cynnal a gwella ansawdd holl weithgareddau artistig y Sherman a bod yn ymwybodol o ddatblygiadau artistig ac arfer gorau ym myd y theatr yng Nghymru, ar draws y DU ac yn rhyngwladol, gan gymryd rhan mewn trafodaeth feirniadol i godi safonau.

**Arwain a Rheoli**

- Ar y cyd â'r Prif Weithredwr, llunio, datblygu a gweithredu gweledigaeth, polisi ac amcanion artistig y cwmni a datblygu Cynlluniau Strategol a Busnes y cwmni gan sicrhau bod adnodd y theatr yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial.
- Ar y cyd â'r Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid a Gweinyddiaeth, sicrhau bod cyllideb ddigonol ar gyfer y rhaglen artistig, bod cynlluniau artistig yn aros o fewn y cyllidebau y cytunwyd arnynt, a bod y rhaglen artistig yn cynhyrchu digon o incwm i gyfrannu at hyfywedd ariannol parhaus Theatr y Sherman.
- Ar y cyd â'r Prif Weithredwr, datblygu, cynnal ac arwain perthnasoedd proffesiynol cadarnhaol ac effeithiol gyda phrif gyllidwyr a rhanddeiliaid allweddol, gan roi gwybod iddynt am flaengynlluniau artistig a strategol a chwarae rhan weithredol yn y broses o sicrhau cyllid.
- Mabwysiadu dull entrepreneuraidd o chwilio am gyfleoedd ar gyfer partneriaethau a fydd yn cyfoethogi rhaglen ac yn gwella enw da a chyrhaeddiad Theatr y Sherman, datblygu perthynas waith effeithiol gyda theatrau cynhyrchu a derbyn yng Nghymru, lleoliadau a chwmnïau yn y DU ac yn rhyngwladol, a grwpiau neu unigolion eraill a all helpu i hyrwyddo amcanion y cwmni.
- Gweithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a staff allweddol eraill, i groesawu a hyrwyddo ethos datblygu cynaliadwy a nodi mesurau i leihau effaith amgylcheddol gweithgareddau'r cwmni a'i waith a rhoi'r mesurau hynny ar waith.
- Ar y cyd â'r Pennaeth Codi Arian, ysbrydoli noddwyr a rhoddwyr newydd drwy gyfleu a chyflwyno gweledigaeth artistig gymhellol, a chyfrannu at geisiadau am gyllid ar gyfer mentrau datblygu cynyrchiadau neu artistiaid.
- Ochr yn ochr â'r Prif Weithredwr, ymgymryd â rôl ffigwr dinesig o fewn Dinas a Sir Caerdydd a sicrhau bod Theatr y Sherman a'i staff yn chwarae rhan lawn ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac addysgol Dinas a Sir Caerdydd a, lle y bo'n briodol, yn cefnogi ac yn ymateb i bolisïau a mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Hyrwyddo ac eiriol dros Theatr y Sherman a'i gweithgareddau, gan fod yn llefarydd allweddol ar ran y cwmni mewn fforymau artistig priodol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol,

gyda rhanddeiliaid allweddol, y wasg a'r cyfryngau.

- Sicrhau bod gennych drosolwg o ddatblygiadau ac arfer gorau yn y diwydiant theatr a thueddiadau celfyddydol/diwylliannol cysylltiedig, a chyfrannu at y drafodaeth ddiwylliannol.
- Ar y cyd â'r Prif Weithredwr, darparu arweinyddiaeth gref, ysbrydoledig drwy greu amgylchedd gwaith cadarnhaol sy'n meithrin diwylliant o barch, creadigrwydd a chwilfrydedd, ac arwain a chyfrannu'n effeithiol at holl gyfarfodydd mewnol priodol y theatr.
- Sicrhau yr ymgynghorir â'r Bwrdd a'i hysbysu am bob datblygiad artistig, cynigion, cyflawniadau a materion strategol allweddol, mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a chynorthwyo'r Bwrdd i ymgysylltu â gwaith Theatr y Sherman
- Cefnogi gweithgaredd i hyrwyddo proffil ac enw da y Theatr, gan weithio gyda'r Prif Weithredwr i ddatblygu perthynas gref gyda'r wasg a chyfryngau eraill. Sicrhau bod gennych drosolwg o hunaniaeth/proffil brand y Cwmni a chymeradwyo deunyddiau corfforaethol, marchnata a hyrwyddo craidd.
- Darparu arweiniad a chefnogaeth ar gyfer pob maes cydymffurfio, er enghraifft y meysydd Iechyd a Diogelwch, Diogelu, ariannol, data a chyflogaeth.

Canllaw i natur y gwaith sy'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Artistig ei gyflawni yw'r swydd-ddisgrifiad hwn. Nid yw'n gwbl gynhwysfawr nac yn gyfyngol a gellir ei adolygu gyda deiliad y swydd a'r Bwrdd yn ôl yr angen.



# MANYLEB Y PERSON

## HANFODOL

### PROFIAD

- Hanes cryf o ddatblygu a chyfarwyddo cynyrchiadau a chydgynyrchiadau proffesiynol llwyddiannus, ac o raglennu gwaith â rhagoriaeth artistig mewn theatrau o wahanol faint ac i amrywiaeth o gynulleidfaoedd.
- Profiad o weithio gydag awduron ac o gomisiynu, datblygu a chyfarwyddo gwaith newydd.
- Profiad o ddatblygu blaengynlluniau artistig a strategol uchelgeisiol ond realistig, gan gynnwys datblygu cyllidebau a therfynau amser y cytunwyd arnynt a gweithio yn unol â'r rheini.

### SGILIAU A GWYBODAETH

- Y gallu i ddatblygu gweledigaeth artistig glir, hyderus a chymhellol a fydd yn cadw ac yn cynyddu cynulleidfaoedd Theatr y Sherman ac yn cyflwyno amrywiaeth iddynt
- Y gallu i weithio ar y cyd, i ddatblygu, cynnal a chryfhau perthnasoedd creadigol a datblygu rhwydwaith cryf o berthnasoedd ar draws y sector.
- Prawf o'r gallu i ddarparu cefnogaeth ddramayddol i awduron.
- Prawf o wybodaeth a dealltwriaeth o ystod o waith ymgysylltu creadigol, cyfranogi, allgymorth a gwaith cymunedol.
- Arweinydd effeithiol ac arloesol gyda sgiliau cyfathrebu rhagorol a'r gallu i ganolbwyntio, ysbrydoli, grymuso ac ysgogi eraill, dirprwyo cyfrifoldeb a rheoli perfformiad
- Sgiliau eirioli a chyflwyno ardderchog gyda'r gallu i fynegi gweledigaeth artistig y theatr er mwyn ysbrydoli ac ennyn diddordeb ystod eang o randdeiliaid.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r hinsawdd cyllido ar draws y sector a phrofiad o weithio gyda chyrff cyllido allweddol.
- Sgiliau artistig, cynllunio strategol a rheoli adnoddau cryf a pheth gwybodaeth am a diddordeb yn y busnes o redeg theatr.
- Dealltwriaeth gadarn o'r cysylltiad rhwng rhaglennu a datblygu cynulleidfaoedd, a'r gallu i droi hynny'n strategaeth artistig.
- Diddordeb mewn technolegau newydd a dealltwriaeth ohonynt, a'r gallu i fod yn ymwybodol o sut y gall technoleg wella'r profiad o theatr fyw.

### NODWEDDION PERSONOL

- Person llawn dychymyg, brwdfrydig ac uchelgeisiol yn artistig gyda'r cymhelliant i ddyrchafu artistiaid, datblygu cynulleidfaoedd, ac ehangu mynediad.
- Ymrwymiad i werthoedd Theatr y Sherman sy'n cynnwys hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.
- Ymrwymiad gwirioneddol i'r gwaith y mae'r theatr yn ei wneud gyda phobl ifanc, ei gwaith fel Theatr Noddfa, ac yn ehangach ei gwaith gydag ac ar gyfer cymunedau.
- Dealltwriaeth o amgylchedd diwylliannol Cymru a'i arwyddocâd i waith Theatr y Sherman.
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg ac awydd i fanteisio ar y cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gweithio mewn gwlad ddwyieithog.
- Dawn entrepreneuraidd, gyda'r awydd i ymchwilio i syniadau newydd, cymryd risgiau creadigol, ac ymateb yn chwim i amgylchedd sy'n newid yn gyflym.

- Diddordeb brwd yng ngwaith gwneuthurwyr theatr eraill, gydag ymrwymiad i ddenu a datblygu talent artistig newydd.
- Ymwybyddiaeth o'r materion cymdeithasol, gwleidyddol ac ariannol allweddol sy'n effeithio ar y sectorau theatr a diwylliannol, gan ddeall sefyllfa Theatr y Sherman o fewn y trafodaethau hyn.

## DYMUNOL

- Profiad o arwain sefydliad sy'n seiliedig ar adeiladau.
- Profiad o weithio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Profiad o weithio mewn ieithoedd eraill.

# CYFARWYDDWR ARTISTIG: MANYLION Y CONTRACT

### CYFLOG

£65,000 y flwyddyn

### TYMOR

Cynigir y swydd am gyfnod penodol o bum mlynedd, yn amodol ar gwblhau cyfnod prawf o 6 mis yn llwyddiannus. Gellir ei adnewyddu drwy gytundeb rhwng y Cyfarwyddwr Artistig a Bwrdd y Cyfarwyddwyr.

### ORIAU

Swydd amser llawn yw hon. Nid yw oriau gwaith uwch aelodau o staff yn sefydlog ond disgwylir i ddeiliad y swydd weithio'r oriau angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r dyletswyddau sy'n dod o fewn cwmpas y swydd.

### GWYLIAU

25diwrnod y flwyddyn, yn ogystal â'r 8 diwrnod gŵyl y banc/gwyliau cyhoeddus cydnabyddedig, gyda dyddiau'n cronni yn unol â chyfnod y gwasanaeth hyd at uchafswm o 27 diwrnod yn ogystal â gwyliau'r banc/gwyliau cyhoeddus.

### CYFNOD RHYBUDD

6 mis (Y cyfnod rhybudd yn ystod y cyfnod prawf yw 1 mis)

### PENSIWN

Mae Theatr y Sherman yn gweithredu cynllun pensiwn y gweithle cymwys.

### YR HAWL I WEITHIO

Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau o dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006.

### GEIRDAON

Mae pob cynnig swydd yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol.

### ADLEOLI

Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fyw o fewn pellter cymudo i'r theatr.

### DYDDIAD DECHRAU

Y gobaith yw y bydd y sawl a benodir yn dechrau ar ei swydd ym mis Medi 2025 neu ynghynt. Pe bai angen, byddai cytundeb yn cael ei drafod rhwng Theatr y Sherman a'r Cyfarwyddwr Artistig ynghylch sut y byddai gwaith a gontractiwyd yn flaenorol yn cael ei reoli.

### BUDDION NAD YDYNT YN RHAN O'R CONTRACT

Rydym yn annog yr holl staff i weld cymaint o sioeau â phosibl ac i fod yn rhan o bob cam o'r broses gynhyrchu ar gyfer cynyrchiadau Theatr y Sherman. Gwahoddir pob aelod o staff i fynychu Noson y Wasg ar gyfer cynyrchiadau Theatr y Sherman, a chynigir tocynnau am ddim i'r rhan fwyaf o sioeau. Rydym hefyd yn cynnig gostyngiad yn y Caffi Bar i bob aelod o staff.

# SUT I WNEUD CAIS

I wneud cais, anfonwch CV a llythyr i gefnogi eich cais yn nodi pam eich bod yn credu eich bod yn addas ar gyfer y swydd at ein hymgynghorydd recriwtio, Helen Sprott, Rheolwr Gyfarwyddwr, AEM International Limited, yn **hsprott@aeminternational.co.uk**.

Ni ddylai llythyrau fod yn hwy na thair tudalen. Bydd pob cais yn cael ei gydnabod. Gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch gyda'r broses hon, cysylltwch â Helen drwy e-bost.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **5pm ar Dydd Iau 27 Mawrth**

Sicrhewch eich bod yn llenwi Holiadur Monitro Cydraddoldeb Theatr y Sherman sydd ar gael yma **shermantheatre.co.uk/amdanom-ni/jobs/?lang=cy**

Os hoffech sgwrs gyfrinachol am y swydd, cysylltwch â Helen drwy e-bost.

### CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Mae Theatr y Sherman wedi ymrwymo i fod yn ofod amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn cael eu trin yn gyfartal a gyda pharch, a lle mae pawb yn teimlo'u bod wedi'u grymuso i gael clust i'w llais ac i gael eu cynrychioli. Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn ein gweithlu ac i nodi a dileu rhwystrau sy'n atal unigolion rhag ymwneud â ni.

Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales
ARIENNIR GAN Y LOTERI LOTTERY FUNDED
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
hyderus o ran anabledd YMRODDEDIG
Sherman Cymru Productions Ltd | Rhif Elusen Cofrestredig 1118364